# Bwrdd Rhianta Corfforaethol

## BLAENORIAETHAU AC ADDEWID

RHONDDA CYNON TAF

# 7 BLAENORIAETH

1. Sicrhau eich bod chi'n teimlo eich bod chi'n derbyn gofal da a chymorth
2. Sicrhau bod gyda chi gyfle i ddweud eich dweud er mwyn gwella gwasanaethau a rhannu'r hy rydyn ni wedi'i wneud i'w gwella
3. Sicrhau bod gyda chi gartref sefydlog sy'n gyfforddus a diogel pan fyddwch chi'n derbyn gof a phan fyddwch chi'n gadael gofal
4. Sicrhau bod gyda chi fynediad at gymorth iechyd meddwl a lles
5. Sicrhau bod gyda chi fynediad at wybodaeth a chymorth er mwyn byw yn annibynnol
6. Sicrhau bod gyda chi ddeilliannau da o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
7. Sicrhau bod eich cyflawniadau yn cael eu dathlu

RHONDDA CYNON TAF

# EIN HADDEWID

## 1 SUT BYDDWN NI'N GOFALU AMDANOCH CHI AC YN EICH HELPU CHI:

- ·Byddwn ni'n sicrhau eich bod chi'n derbyn gofal da, yn ddiogel a bod lle cyfforddus gyda chi i fyw.
- ·Byddwn ni'n sicrhau bod yr oedolion sy'n gweithio gyda chi wedi derbyn hyfforddiant digonol, yn deall eich anghenion unigol ac yn effro i'ch hawliau chi. Byddan nhw'n eich helpu chi i ddysgu am eich hawliau gan ddefnyddio iaith sy'n hawdd i'w deall.

## 2 SUT BYDDWN NI'N SICRHAU BOD GYDA CHI LAIS:

- ·Byddwn ni'n gwrando ar eich dymuniadau, eich barn a'ch teimladau ac yn eich helpu chi a chydweithio gyda chi er mwyn llunio penderfyniadau amdanoch chi neu benderfyniadau sy'n cael effaith arnoch chi.
- ·Bydd ein hachlysuron cyfranogiad yn gyfle i leisio eich barn mewn perthynas â sut hoffech chi ein gweld ni'n gwella'n gwasanaethau ac i leisio'ch barn i aelodau ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol er mwyn gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc.
- ·Byddwn ni'n rhannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud bob blwyddyn yn rhan o adroddiad/cylchlythyr, ac yn ymgysylltu â chi yn rhan o'n sesiwn holi ac ateb flynyddol a fydd yn cael ei chynnal wyneb yn wyneb gyda'n Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

RHONDDA CYNON TAF

## 3 SUT BYDDWN NI'N EICH HELPU CHI I DEIMLO'N DDIOGEL A CHAEL LLE DIOGEL I FYW:

- ·Byddwn ni'n darparu cartref/lle cyfforddus i chi fyw i sicrhau eich bod chi'n teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal da.

## 4 SUT BYDDWN NI'N EICH HELPU CHI I GAEL MYNEDIAD AT GYMORTH IECHYD MEDDWL A LLES:

- ·Byddwn ni'n sicrhau bod pob oedolyn cyfrifol yn cyflwyno eu hunain mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall.
- ·Byddwn ni'n sicrhau eich bod chi'n gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth mewn perthynas â'ch iechyd, eich ffitrwydd a'ch lles yn eich cymuned drwy wefannau ar gyfer plant a phobl ifainc.
- ·Byddwn ni'n sicrhau bod yr oedolion sy'n eich cynorthwyo chi yn effro i'r hyn sydd ei angen arnoch chi er mwyn sicrhau ffordd iach o fyw.

## 5 SUT BYDDWN NI'N EICH HELPU CHI I GAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH RYDYCH CHI EI EISIAU NEU ANGEN A CHYMORTH AR GYFER BYW YN ANNIBYNNOL:

- ·Byddwn ni'n datblygu a diweddaru'r wybodaeth ar gyfer plant a phobl ifainc sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

## 6 SUT BYDDWN NI'N EICH CYNORTHWYO CHI I WELLA EICH DEILLIANNAU O RAN ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH:

- ·Byddwn ni'n eich cefnogi chi i ymgysylltu â'ch addysg, eich hyfforddiant a'ch cyflogaeth ac yn eich annog chi i feithrin dyheadau uchel ar gyfer eich dyfodol.
- ·Byddwn ni'n darparu gwybodaeth am gyfleoedd addysg amgen ar eich cyfer (os oes angen yr wybodaeth yma arnoch chi) ac yn eich helpu chi i lwyddo.
- ·Byddwn ni'n eich helpu chi i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant, prentisiaethau, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth.

## 7 SUT BYDDWN NI'N EICH HELPU CHI I DDATHLU EICH CYFLAWNIADAU AC I DDATBLYGU EICH DYHEADAU PRESENNOL AC AR GYFER Y DYFODOL.

- ·Byddwn ni'n parhau i gynnal achlysuron blynyddol i ddathlu eich cyflawniadau a'ch dyheadau.
- ·Byddwn ni'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi derbyn gofal yn cyrraedd eu potensial llawn ac yn mwynhau ystod o brofiadau o ran hamdden, diwylliant, chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol.

RHONDDA CYNON TAF